cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD I'R WASG
Dyddiad: Tachwedd 2010

Tai Ceredigion yn galw ar gontractwyr lleol i gysylltu

Mae Tai Ceredigion yn galw ar gontractwyr lleol i gysylltu a mynegi eu diddordeb mewn contractau o bob maint, sy'n ymwneud â gweithio ar raglenni gwaith mewnol, systemau gwresogi, a ffenestri a drysau Tai Ceredigion.

Dros y 5 mlynedd nesaf, rhaid i'r gymdeithas dai ddi-elw leol sicrhau bod pob un o'i 2,229 o gartrefi yng Ngheredigion yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, nad yw'n waith hawdd. Bydd yn golygu ymgymryd â rhaglen welliannau enfawr gwerth £40 miliwn, y bu'r sefydliad yn ymgynghori â'i denantiaid a'i lesddeiliaid yn ei chylch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Meddai Llyr Edwards, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo: "Rydym yn gobeithio y bydd pob contractwr cymwys yn yr ardal yn cysylltu â ni. Rydym wedi rhannu'r gwaith i gyd yn gontractau o wahanol faint, sy'n addas i gwmnïau bach, canolig neu fawr. Rydym yn awyddus i gyflogi cynifer o gontractwyr lleol ag sy'n bosibl. Felly, os oes gan unrhyw rai ddiddordeb, rhaid iddynt fynegi eu diddordeb yn gyntaf, a bydd holiadur cyn cymhwyso yn cael ei anfon atynt wedyn."

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am becyn holiadur cyn cymhwyso yw 16 Rhagfyr 2010, a bydd yn rhaid llenwi a dychwelyd pob holiadur cyn cymhwyso erbyn 28 Ionawr 2011.

Dim ond trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol y gall y sawl sydd â diddordeb fynegi eu diddordeb ac archebu pecyn holiadur cyn cymhwyso:

pss@taiceredigion.org.uk